Ymgynghoriad ar y Polisi Cymwysterau Blaenoriaethol Cyfyngedig Drafft

Cyflwyniad

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein nodau statudol, mae Deddf Cymwysterau Cymru 2015 (y Ddeddf) yn rhoi'r pŵer i ni gyfyngu ar nifer y fersiynau o gymwysterau blaenoriaethol sy'n gymwys ar gyfer rhaglenni dysgu a ariennir yn gyhoeddus yng Nghymru. Er enghraifft, gallwn ei gwneud yn ofynnol mai dim ond un fersiwn o gymhwyster sydd ar gael pan fyddwn yn penderfynu mai hwn sy'n diwallu anghenion dysgwyr orau.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi datganiad polisi am sut y byddwn yn defnyddio ein pwerau i gyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol a'i adolygu yn gyson. Yn yr ymgynghoriad hwn rydym yn gofyn i gyrff dyfarnu ac eraill roi sylwadau ar ein polisi arfaethedig. Yn yr ymgynghoriad hwn nid ydym yn ymgynghori ynglŷn â chynigion osod cyfyngiad ar unrhyw gymwysterau penodol, ond ynglŷn â'r polisi sy'n nodi sut y byddem yn gwneud hynny yn y dyfodol.

Nod ein polisi yw esbonio pryd a sut y byddem yn ystyried defnyddio ein pwerau i gyfyngu ar gymwysterau blaenoriaethol gan gynnwys y ffactorau y byddem yn eu hystyried a'r broses y byddem yn ei dilyn. Fel y mae'r polisi yn esbonio, pryd bynnag y byddwn yn ystyried defnyddio ein pwerau cyfyngu, mae'n rhaid i ni ymgynghori ar gynigion penodol gyda chyrff dyfarnu a phartïon eraill sydd â diddordeb ac mae'n rhaid i ni ystyried eu barn.

Mae dwy ffordd y gallwn gyfyngu. Gallwn naill ai gomisiynu un neu fwy o gyrff dyfarnu i ddatblygu cymhwyster newydd, neu gallwn benderfynu pa gymhwyster/cymwysterau i'w cymeradwyo o'r rheini a gyflwynwyd i ni gan gyrff dyfarnu. Mae'r polisi yn esbonio yn fwy manwl sut y byddai'r ddau fath o gyfyngu yn gweithio'n ymarferol. Darperir y polisi a diagramau llif dangosol yn amlinellu'r llwybrau dewis a chomisiynu yn y ddogfen ymgynghori er gwybodaeth, a gellir eu cyrchu drwy'r ddolen ganlynol http://qualificationswales.org/media/1790/restriction-consultation-document-cy.pdf .

Y polisi

1. A yw'r polisi'n esbonio pam y byddai Cymwysterau Cymru yn cyfyngu cymwysterau blaenoriaethol?

- ◯ Ydy
- ◯ I ryw raddau
- ◯ Nac ydy

Sylwadau

2. A yw'r polisi'n esbonio sut y bydd Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r llwybrcomisiynu i gyfyngu cymhwyster blaenoriaethol?

- ◯ Ydy
- ◯ I ryw raddau
- ◯ Nac ydy

Sylwadau

3. A yw'r polisi'n esbonio sut y bydd Cymwysterau Cymru yn defnyddio'r llwybr<u>dethol</u> i gyfyngu cymhwyster blaenoriaethol?

- ◯ Ydy
- ◯ I ryw raddau
- ◯ Nac ydy

Sylwadau

4. A fyddai unrhyw un o'r camau a ddisgrifir yn y polisi'n arwain at unrhyw ganlyniadau (bwriadol neu anfwriadol) o ran cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg?

- ◯ Byddent
- ◯ Na fyddent

Sylwadau

5. A fyddai unrhyw un o'r camau a ddisgrifir yn y polisi'n arwain at unrhyw ganlyniadau (bwriadol neu anfwriadol) i grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010?

- ◯ Byddent
- ◯ Na fyddent

Sylwadau

6. A oes unrhyw ganlyniadau cadarnhaol a/neu negyddol eraill i unigolion neu sefydliadau a allai ddeillio o'r camau amrywiol a ddisgrifir yn y polisi yr hoffech chi dynnu ein sylw atynt? (cewch roi tic mewn mwy nag un blwch)

- [ ] Cadarnhaol
- [ ] Negyddol
- [ ] Dim

Nodwch

7. Os oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill ar gynnwys y polisi nad ydym wedi rhoi sylw iddynt yn benodol, defnyddiwch y gofod hwn i roi gwybod amdanynt:

Nodwch eich sylwadau yma:

Gwybodaeth personol

8. Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau ar gael yn gyhoeddus, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os ydych chi eisiau i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch y blwch hwn:

- ◯ Rydw i eisiau i'm hymateb aros yn ddienw.

*** 9. Gwybodaeth cyswllt**

Enw

Cyfeiriad

Dinas/tref

Cod post

Cyfeiriad e-bost

10. Eich sefydliad (os yw'n berthnasol):

- ◯ Corff dyfarnu
- ◯ Canolfan
- ◯ Arall (nodwch)

*** 11. Cadarnhewch p'un a ydych chi'n ymateb ar ran eich sefydliad neu fel unigolyn:**

- ◯ Ar ran y sefydliad
- ◯ Unigolyn